CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD CYNGOR 19 EBRILL 2016

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W L Davies

Cynghorwyr
W R Owen, W T Owen, I C Thomas, H W Roberts, M W Thomas, A Hopcyn, E Hughes, T Thomas, K Williams, C Williams, G Thomas, M Sarnacki

1. **Ymddiheuriadau**
E Lovgreen, G Thomas, B Owen, A Bohana

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Yn absenoldeb y Caplan ,diolchodd Y Maer iddi am ei gwasaneth yn ystod y flwyddyn gan ddymuno pob lwc iddi ar ei thrip i India

Nododd llwyddiant y clerc yn cael ei chydnabod yn genedlaethol am ei gwasanaeth i'r sector .

Atgoffa pawb bod angen tynnu llun (yn eu clogynnau) am 5.30 cyn y Cyngor Nesaf am 5.30

- Cyfarfod Gŵyl Fwyd
- Sessiwn dewch i ddweud Bws Gwynedd
- Cyhoeddi cyngerdd y Maer sef nos wener yma gan obeithio prynnu diffibulator i'r dre

3. **Datgan Buddiant Personol**

W R Owen – cynllunio
E Hughes – Panel cyllid cais 4
W T Owen – cynllunio
I C Thomas – eitem 12 a 14

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 5 Ebrill 2016
ii. Pwyllgor Cyllid 12 Ebrill 2016

Penderfynwyd

i. Derbyn fel rhai cywir (unfrydol)
ii. Derbyn rhestr argymhellion y panel cyllid ar ôl newid cyfraniad i starliners i £1000 (unfrydol)

Oedd Cyng E Hughes allan (eitem ii (iv))

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

1. C16/0323/14/CR **Cytuno**
Addasiadau mewnol

Tŷ Glyndwr, 20 High Street,
Caernarfon

****

2. C16/0324/14/LL **Cytuno**
Newid defnydd cyn oriel gelf
i byncws gyda chaffi a bar cysylltiol

Ty Glyndwr, 20 High Street.
Caernarfon

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn au talu (unfrydol)

8. **Dogfen Weithredol y Cyngor**
    - Cafwyd diweddariad bod Llywodraeth Cymru bellach yn ceisio helpu efo elfennau DBS
    - Cafwyd trafodaeth hir am sefyllfa plac Boar War gofynwyd i'r clerc gael barn cyfreithiol am y sefyllfa i weld os allwn ni dal fynd ar ôl y mater. A gweld os oes gan Cadw unrhyw wybodaeth
    - Gofynwyd os oedd pris wedi dderbyn am y gath wyllt eto a nodwyd nad oedd y cwmni wedi dod yn ôl – gofynodd y clerc am hawl i gysylltu a Morgan Evans

Penderfynwyd
- I'r clerc gael barn cyfreithiol parthed sut allwn ni gysylltu eto a'r perchenog parthed plac Boar War
- Fynd at Morgan Evans am bris parthed y gath wyllt

9. **Fformat Cofnodion**

Wedi codi yng nghyfarfod 5 Ebrill 2016
- Cafwyd trafodaeth parthed a dylid cofnodi rhesymau yn y cofnodion . eglurodd y clerc y rheswm tu ôl i hyn sef y rheol 6 mis a bod hi yn bwysig i bobl ymddiheuro trwy'r swyddfa i sicrhau cworwm
- Cafwyd sgwrs am fanylder cofnodion yn gyffredinol a pawb yn hoffi gweld y pleidlais (ond angen fod yn ddi enw)

Penderfynwyd
- Clerc yn unig i nodi rhesymau ond dim yn y cofnodion (unfrydol)
- Pwyllgor ymgynghorol i edrych ar hyn wrth drafod y rheolau sefydlog (unfrydol)

10. **Unllais Cymru**

Bwletin Cyfoeth Naturiol Cymru - wedi symud o gyfarfod 5 Ebrill

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

11. **Planters** – o gyfarfod 5 Ebrill

Eglurodd y clerc y cefndir sef mai y trefniant gwreiddiol oedd i Cyngor Gwynedd brynnu'r planters a talu am y blodau gwreiddiol , Cyngor Tref i dalu am yswiriant a cynnal a chadw ac yna i'r Siambr Fasnach dalu am y blodau

Oedd y clerc yn nodi iddi derbyn siec am £600 i dalu am y blodau ac yn ceisio cael barn y Cyngor sut i symud ymlaen

Oedd tri opsiwn

i) Dim ond gwario'r £600

ii) Gwario'r £600 a defnyddio synnwyr cyffredin hyd at £1000

iii) Gwario hynny sydd angen

Hefyd nodwyd mai ddoeth byddai siarad efo rhai o ennilwyr y cystadleuaeth gerddi wm eu barn

Penderfynwyd

Dewis opsiwn ii a'r clerc efo hawl i symud ymlaen a'r gofynion perthnasol (unfrydol)

12. **Adroddiad o Ardal Gwella Busnes** – wedi symud o gyfarfod 5 Ebrill

Cafwyd sgwrs am deimladau nifer o bobl yn y dre am y pwnc ond gan bod y pleidlais wedi bod ,anodd iawn trafod ymhellach

Penderfynwyd

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth (11 o blaid, 1 yn erbyn a 2 yn ymatal)

13. Cymorth Cynllunio Cymru

Cwrs yn Beaumaris

Penderfynwyd

Llogi lle i Glyn Thomas (p) (unfrydol)

14. Llythyr Cyngor Gwynedd

Diwrnod Lluoedd Arfog Caernarfon – 17 Mehefin 2017

Cyngor Gwynedd fydd yn gyfrifol am drefnu ond yn gofyn am ganiatâd i'r clerc fynychu cyfarfodydd fel un sydd wedi trefnu yn y gorffenol

Penderfynwyd

Caniatáu i'r clerc fynychu cyfarfodydd (unfrydol)

15.Cwestiynau

Dim

Gorffenodd y cyfarfod am 6.55

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....